www.furthermaths.org.uk/wales

| | |
|---|---|
| Astudiaeth Achos | Ysgol Syr Thomas Picton |
| Cyfeiriad | Queensway, Hwlffordd SA61 2NX<br>01437 765394 |
| Nifer myfyrwyr 16 – 18 oed 2013/14 | |

**Astudiaeth Achos:**
**Athrawes – *Andrea Picton-Davies, Pennaeth Mathemateg***

## Darparu Mathemateg Pellach:

Mae cynnig Mathemateg Bellach yn bwysig yn ein hysgol gan fod y pwnc yn galluogi myfyrwyr i wneud rhagor o Fathemateg a thrwy hynny gyrraedd dyfnder o wybodaeth sydd ei angen ar gyfer astudio Gwyddoniaeth, Peirianneg a Mathemateg ei hun. Rydym yn ymwybodol iawn bod rhai Prifysgolion bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gael Mathemateg Bellach ac fel ysgol doedden ni ddim eisiau cyfyngu ar ddewis ein myfyrwyr. Rydym am i bob myfyriwr i lwyddo yn beth bynnag maent yn dewis ei wneud. Roedd cynnig Mathemateg Bellach hefyd yn helpu i gymell fy staff. Fel y digwyddodd roedd gennym nifer o athrawon yn barod i ddysgu Mathemateg Pur Bellach, Mecaneg ac Ystadegaeth ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddatblygu. Yr ydym wedi bod yn rhedeg ein dosbarth Mathemateg Bellach UG am bum mlynedd bellach. Ond dim ond gyda chymorth FMSP Cymru yr oeddem yn gallu cynnig Safon Uwch llawn i'n myfyrwyr.

Ymunodd yr ysgol yn rhaglen FMSP Cymru ar ei gychwyn yn 2010 gan ein bod yn awyddus i godi proffil Mathemateg. Rydym yn awyddus i wthio myfyrwyr a staff i gyflawni mwy. Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn y ddau beth erbyn hyn.

## Manteision Astudio Mathemateg Bellach?

Isod mae rhai o'r uchafbwyntiau mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach wedi bod yn fuddiol yn ein hysgol:

- Mynd â'n Mathemategwyr Blwyddyn 10 i gynhadledd Gadewch i Fathemateg Fynd â Chi Ymhellach tuag at ddiwedd y flwyddyn
- Trefnu sgyrsiau Gyrfaoedd mewn Mathemateg i gael eu cynnal yn yr ysgol ar gyfer y rhai ym Mlwyddyn 11.
- Dosbarthiadau meistr ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb i fynychu pan fyddant yn dechrau yn B12.
- Mae myfyrwyr sy'n astudio Mathemateg Bellach yn cael eu cefnogi mewn sesiynau

adolygu ar gyfer Mathemateg Safon Uwch, Mathemateg Bellach a Mathemateg Ychwanegol. Rydym wedi ein lleoli mewn ardal wledig ac yn gwerthfawrogi bod rhai o'r sesiynau adolygu yn cael eu rhedeg ar-lein.

Rydym hefyd yn canfod bod staff yn elwa o fynychu'r digwyddiadau uchod ac rydym yn bwriadu defnyddio rhai o'r deunyddiau yn yr ysgol.

Mae'n hanfodol bwysig i ni nad yw digwyddiadau FMSP Cymru yn cael eu cyfyngu i fyfyrwyr sy'n fodlon astudio Mathemateg Bellach ond ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn Mathemateg gan ddechrau o CA4. Newidiodd amgyffrediad ein myfyrwyr o Fathemateg Safon Uwch ac fe'u hysbrydolwyd i weithio'n galetach. Roeddem yn falch iawn o glywed i un o'r myfyrwyr ennill A* mewn Mathemateg Pellach eleni. Mae gennym hefyd fwy o A a A* mewn Mathemateg Safon Uwch nawr.

Mae ein cydweithrediad â FMSP Cymru wedi profi i fod yn gweithio'n dda. Fel mewn llawer o ysgolion eraill dydy ein dosbarth Mathemateg Bellach UG ddim yn cael ei hamserlennu ac rydym yn gwerthfawrogi cymorth y FMSP Cymru yn fawr iawn. Wrth gael eu haddysgu ar-lein a'u hannog i weithio'n annibynnol mae ein myfyrwyr Mathemateg Bellach yn datblygu fel dysgwyr annibynnol. Er y byddwn wrth fy modd gweld y dosbarth ar yr amserlen yn llawn, yr wyf yn teimlo bod y cyfuniad o gymorth yn yr ysgol a sesiynau tiwtorial FMSP yn gweithio'n dda. Rydym yn bwriadu parhau i weithio gyda'r FMSP Cymru i ddatblygu staff ymhellach ac i wthio ein myfyrwyr er mwyn cyflawni hyd yn oed mwy.